



promoting equality in housing  
hybu cydraddoldeb ym maes tai

# ECYN RECRIWTIO

## Rheolwr Gwrth-hiliaeth

**Lleoliad:** Caerdydd a gweithio o bell

**Dyddiad cau:** 12 hanner dydd | 07/05/2024

**Cyfweliad 1:** 16/05/2024

**Cyfweliad 2:** 22/05/2024

Diolch yn fawr am ddangos diddordeb yn y swydd Rheolwr Gwrth-hiliaeth. Mae hon yn swydd newydd sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu i gyflawni'r agenda gwrth-hiliaeth ym maes tai yng Nghymru. Ar hyn o bryd, bydd y swydd yn cael ei hariannu am 14 mis gyda phosibilrwydd o estyniad neu gontract parhaol (yn amodol ar gyllid).

**Tai Pawb yw'r prif fudiad sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector tai yng Nghymru. Rydyn ni'n dychmygu Cymru lle mae gan bawb yr hawl i gael cartref da.** Rydyn ni'n cefnogi ein haelodau i'w helpu i wreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth maen nhw'n ei wneud ac rydyn ni'n dylanwadu ar y rhai sy'n llunio polisiau.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â Tai Pawb, wrth i ni ddechrau ar bedwaredd flwyddyn ein haddewid [Gwneud nid Dweud](#), ac ehangu ein gwaith gwrth-hiliaeth i helpu i gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

Mae ein cylch gwaith yn eithaf arbenigol ac nid ydyn ni'n disgwyl i ymgeiswyr fod yn arbenigwyr ar wrth-hiliaeth a'r sector tai o'r dechrau. Ar gyfer y swydd hon, yr elfennau pwysicaf yw eich **ymrwymiad** i werthoedd gwrth-hiliaeth, eich **profiad personol** o hiliaeth **a gwybodaeth arbenigol** o sut mae'n **gweithredu** mewn sefydliadau a sut i **weithio gyda** nhw i fynd i'r afael â hyn.

Mae brys y gwaith hwn wedi'i amlygu gan effaith COVID-19 ar bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a llofruddiaeth erchyll George Floyd. Mae llawer wedi edrych ar eu hymdrechion blaenorol ac wedi cydnabod eu methiannau o roi cipolwg newydd. Yn 2020, fe wnaethon ni ddechrau ar ein menter Gwneud nid Dweud. Mae cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn gyfle i ehangu'r hyn rydyn ni eisoes wedi'i wneud ac i weithio gydag eraill i weithredu newid diriaethol.

Un o'r pethau gwych am weithio mewn sefydliad compact fel Tai Pawb yw eich bod yn gallu datblygu amrywiaeth o sgiliau yn rhwydd, ehangu eich rhwydweithiau a datblygu eich proffil eich hun. Mae'n arbennig o dda gan eich bod yn gallu gweld effaith uniongyrchol eich gwaith – gallwch chi wir ddylanwadu ar ein cyfeiriad ac nid yw penderfyniadau yn cymryd llawer o amser. Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio eich sgiliau a datblygu eich potensial mewn sefydliad sydd wedi ymrwymo i'ch cefnogi yn ystod eich gyrfa.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os nad ydych yn siŵr a ydych am ymgeisio ai peidio – ffoniwch fi ar 029 2278 8911. Edrychaf ymlaen at gael eich cais.

**Alicja Zalesinska**

**Prif Weithredwr**




# Gwybodaeth Amdanom Ni

## Pwy Ydyn Ni

Tai Pawb yw'r prif fudiad cenedlaethol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector tai. Mae gennyn ni weledigaeth o Gymru lle mae gan bawb yr hawl i gael cartref da. Rydyn ni'n cefnogi ac yn gweithio gyda'n haelodau i'w helpu i roi syniadau ar waith, rydyn ni'n dylanwadu ar y rhai sy'n llunio polisiau i wneud polisi tai'n deg a ni yw'r arweinwyr syniadau ar faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar gyfer y sector tai a'r tu hwnt.

## Ein Tîm



# Pam gweithio yn Tai Pawb?

## Y manteision



### CYFLOG

Rydyn ni'n cynnig cyflog cystadleuol. Mae hyn yn cael ei feincnodi'n rheolaidd yn erbyn safonau'r diwydiant.




### PENSIWN

Cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio Bydd Tai Pawb yn cyfrannu 5% at eich pensiwn.



### WYTHNOS WAITH 4 DIWRNOD


Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, bydd Tai Pawb yn treialu wythnos waith 4 diwrnod. Mae'r W4D yn seiliedig ar egwyddor o gyflawni 100% o'r gwaith, mewn 80% o'r amser, am 100% o'r cyflog (nid yw'n golygu oriau cywasgedig na thâl pro rata) [darllenwch fwy yma](#)



### GWEITHIO'N HYBLYG


Gartref fydd prif ganolfan waith yr ymgeisydd llwyddiannus. Mae gennyn ni swyddfa yng Nghaerdydd ac mae modd ei defnyddio drwy gydol yr wythnos yn unol ag anghenion aelodau staff.

Rydyn ni'n disgwyl y byddwch chi'n cwrdd â'ch rheolwr llinell yn rheolaidd i drafod gwaith prosiect.



### GWYLIAU

Mae gan staff hawl i gael 23 diwrnod o wyliau blynyddol ac 8 Gŵyl Banc. Rydyn ni hefyd yn cynnig absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu ac absenoldeb rhiant a rennir hael.



### LLUNIO'R SEFYDLIAD A'N GWAITH

Bydd ymuno â Tai Pawb yn rhoi cyfle i chi helpu i lunio ein gwaith yn ogystal â'n hymatebion i gyfleoedd a heriau yn y sector tai a chydaddoldeb.

Rydyn ni'n sefydliad gwirioneddol golegol a chydweithredol sy'n gwerthfawrogi mewnbwn a phrofiad staff.



# Disgrifiad Swydd

**Swydd:** Rheolwr Gwrth-hiliaeth

**Yn atebol i:** Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus

**Cyflog:** £37,132 y flwyddyn

**Oriau:** 28 awr yr wythnos (dull hyblyg o weithio oriau) Ar hyn o bryd rydyn ni'n treialu wythnos pedwar diwrnod, lle byddwch chi'n derbyn 100% o'r cyflog am 80% o'r oriau a 100% o'r canlyniadau. Nid ydyn ni'n gweithio ar ddydd Gwener.

**Contract:** 14 mis (estyniad/sefydlogrwydd posibl yn amodol ar gyllid) **Lleoliad:**

Gartref yn bennaf, gyda mynediad at y swyddfa ac o leiaf sesiynau misol yn y swyddfa (addasiadau rhesymol ar gyfer y person llwyddiannus os oes angen)

**Perthnasoedd Allweddol:** Tîm polisi, tîm aelodaeth, cymdeithasau tai, awdurdodau lleol, mudiadau cefnogi tai'r trydydd sector, mudiadau eiriolaeth hil,

## Pwrpas y swydd

Bydd y swydd newydd hon yn gweithio'n agos gyda'r Uwch Dîm Arwain a'r tîm ehangach. Bydd deiliad y swydd yn dod â: profiad personol o hiliaeth ac arbenigedd o ran sut mae'n gweithredu mewn polisi ac ymarfer cyhoeddus. Bydd yn ei ddefnyddio i'n helpu ni a'n haelodau i gyflawni addewid [Gwneud nid Dweud](#). Bydd hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, y sector tai, sefydliadau'r trydydd sector a chymunedau i helpu i weithredu a monitro effaith [Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) Llywodraeth Cymru (camau gweithredu wedi'u dewis ar gyfer tai) Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r swydd hon.



**Deeds Not  
Words**

A pledge to end racial inequality in housing

# Disgrifiad Swydd

## Y Prif Ddyletswyddau

- Trefnu a helpu i hwyluso cyfarfodydd arweinwyr Gwneud nid Dweud (cyfarfodydd uwch arweinwyr o'r 30 sefydliad sydd wedi ymuno â'r fenter)
- Cefnogi gwaith panel Gwneud nid Dweud o weithwyr proffesiynol yn y sector tai o leiafrifoedd ethnig (e.e. helpu i drefnu cyfarfodydd, boreau coffi a chefnogi cyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer)
- Helpu i fonitro effaith Gwneud nid Dweud drwy ymgysylltu ag aelodau ac arolygon cynnydd
- Gweithio gyda thîm Tai Pawb i gefnogi sefydliadau tai i wreiddio gwrth-hiliaeth yn eu polisïau a'u hymarfer (drwy gyngor, hyrwyddo arferion da, digwyddiadau ac ati)
- Sefydlu cyfleoedd mentora/mentora o chwith ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y sector tai o leiafrifoedd ethnig
- Casglu a dadansoddi data ar amrywiaeth hiliol a hyfforddiant gwrth-hiliaeth yn y gweithlu tai
- Gweithio gyda'r tîm i hyrwyddo arferion da ac adnoddau ar wrth-hiliaeth a'r sector tai drwy sianeli cyfathrebu Tai Pawb
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau cyflawni gwrth-hiliaeth mewn sefydliadau yn y sector tai a helpu i fonitro a oes cynlluniau yn bodoli.
- Helpu i adolygu pecyn cymorth Tai a Throseddau Casineb Tai Pawb a chefnogi'r gwaith o hyrwyddo hyfforddiant troseddau casineb yn y sector
- Cydweithio â'r tîm a phartneriaid i ddatblygu canllaw arferion da ar asesu a diwallu anghenion tai pobl o leiafrifoedd ethnig a diweddarau canllaw arferion da Tai Pawb ar ddylunio sy'n briodol yn ddiwylliannol
- Cynnal arolwg o denantiaid o leiafrifoedd ethnig gyda'r trydydd sector a phartneriaid eraill a helpu i sicrhau bod canlyniadau'n dylanwadu ar bolisi ac ymarfer
- Helpu i sicrhau bod lleisiau tenantiaid o leiafrifoedd ethnig yn dylanwadu ar bolisi ac ymarfer yn y sector tai. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid i ymgysylltu'n uniongyrchol â thenantiaid o leiafrifoedd ethnig a sefydlu panel/rhwydwaith tenantiaid o leiafrifoedd ethnig.
- Gwneud unrhyw dasgau eraill a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd fel aelod o dîm bach sydd â chylch gwaith cenedlaethol.

# Manyleb y Person

## Gwybodaeth a phrofiad

- Profiad personol o hiliaeth
- Arbenigedd ar sut mae hiliaeth yn gweithredu mewn sefydliadau a sut y mae modd mynd i'r afael â hiliaeth ar lefel polisi ac ymarfer
- Profiad neu ddealltwriaeth o sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio
- Hanes llwyddiannus o ddatblygu cysylltiadau effeithiol a chredadwy gydag ystod eang o randdeiliaid
- Profiad o ddatblygu a chynnal ymchwil/arolygon a chyflwyno canlyniadau
- Gallu canfod patrymau o wahaniaethau hiliol ar draws polisi ac ymarfer
- Dealltwriaeth o rôl sefydliad aelodaeth cenedlaethol
- Rheoli Prosiectau

## Sgiliau a chymwysedau

- Ymrwymiad amlwg i atal hiliaeth, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Gallu defnyddio a chyflwyno arbenigedd mewn ffyrdd y gall y rhai sy'n llunio polisiau ac ymarferwyr eu defnyddio, gan gynnig heriau ac atebion
- Sgiliau hwyluso grwpiau
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd a dibenion
- Trefnus iawn gyda sgiliau cynllunio prosiect a'r gallu i weithio'n annibynnol
- Sgiliau TG lefel uwch gan gynnwys Excel, Word, PPT a Survey Monkey neu debyg
- Gallu cyfathrebu'n Gymraeg



# Y Camau Nesaf



I wneud cais am y swydd hon,  
anfonwch y ffurflen gais a'r ffurflen  
monitro cydraddoldeb at;

**[andrea@taipawb.org](mailto:andrea@taipawb.org)**

erbyn **hanner dydd, dydd Mawrth 7 Mai**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau  
neu os hoffech chi drafod y swydd  
ymhellach, gallwch chi gysylltu ag Alicja  
Zalesinska, Prif Swyddog Gweithredol ar  
02922 788 911 neu [alicja@taipawb.org](mailto:alicja@taipawb.org)



Mae Tai Pawb yn sefydliad cyfle  
cyfartal. **Rydyn ni'n croesawu'n  
arbennig geisiadau gan  
ymgeiswyr o gefndiroedd  
amrywiol.** Bydd pob ymgeisydd  
Du, Asiaidd, Ethnig Amrywiol ac  
anabl sy'n bodloni'r meini prawf  
hanfodol yn cael sicrwydd o  
gyfweliad yng Ngham